



NHS
WALES
GIG
CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Penodi Is-Gadeirydd

Dyddiad Cau: 1 Gorffennaf 2018



Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cynnwys	Tudalen
Gwneud cais	3
Atodiad A : Rôl yr Is-gadeirydd	6
Atodiad B: Swyddogaeth a Chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	10
Atodiad C : Y broses ddethol	12

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn rôl Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd yn ofynnol i'r Is-gadeirydd chwarae rôl lawn a gweithgar yn y modd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu. Bwrdd colegaid yw hwn, ac mae gan yr aelodau hawliau pleidleisio. I gael rhagor o wybodaeth gweler y ddolen ganlynol at reoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2009/779/made>. Yn ogystal, bydd disgwyl ichi gynnig her adeiladol, chwarae rhan weithgar ym mhroses benderfynu'r Bwrdd a chraffu ar berfformiad y Weithrediaeth o ran bodloni'r nodau a'r amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr Is-gadeirydd, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-73e9b58a36f4/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac yna cliciwch y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon trwy eich cyfrif cofrestredig.

Byddwch yn gallu cael mynediad at y ffurflen gais yn syth ar ôl ichi gofrestru. I wneud cais, bydd angen ichi gyflwyno'r ffurflen gais a **dwy** ddogfen ategol. **Datganiad personol** yw'r ddogfen ategol gyntaf sy'n rhoi atebion i'r cwestiynau isod, o ran tystiolaeth o fodloni'r cymwyseddau. Ni ddylai'r ddogfen hon fod yn fwy na dwy dudalen A4. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn mynd dros y terfyn hwn. **CV** llawn, cyfredol yw'r ail ddogfen ategol y bydd rhaid ichi ei chyflwyno. Dylech lanlwytho'r ddwy ddogfen i'r adran "Rhesymau dros ymgeisio" yn y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Dylech ateb y cwestiynau isod yn eich datganiad personol. Wrth ateb y cwestiynau, dylech hefyd ystyried y meini prawf penodol i'r swydd a'r sgiliau neilltuol y disgwylir i ddeiliad y swydd feddu arnynt. Nodwch hefyd y bydd eich tystiolaeth yn cael ei hasesu i benderfynu a oes gennych y lefel angenrheidiol o brofiad i weithredu'n effeithiol ar lefel y Bwrdd.

Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir i ba gwestiwn y mae'r dystiolaeth benodol yr ydych yn ei darparu yn perthyn. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraff ar wahân ar gyfer pob cwestiwn.

Cwestiynau i'w hateb fel rhan o'ch cais yn eich datganiad personol, gan ddefnyddio dim mwy na 2 dudalen A4.

1. Rhowch fanylion eich profiad yn arwain ac yn datblygu sefydliad ar lefel uwch ar fwrdd neu gyfatebol a'ch gallu i edrych tua'r dyfodol ac arwain yn strategol.
2. Drwy roi enghraifft benodol, dangoswch eich profiad o ddatblygu perthynas effeithiol gyda rhanddeiliaid, a sut y gallai hyn fod yn berthnasol i weithio gydag

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Ymddiriedolaethau'r GIG, Llywodraeth Leol, y Trydydd Sector a Phartneriaid Cymdeithasol, cleifion, cymunedau lleol a chontractwyr gofal sylfaenol.

3. Rydym yn chwilio am bobl â dealltwriaeth o'r berthynas rhwng dyrannu a rheoli adnoddau a chyflenwi blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol cadarn. Yn y cyd-destun hwn, disgrifiwch ym mha ffordd yr ydych wedi cyfrannu at gynllunio, datblygu a darparu gwasanaeth yr oeddech yn gyfrifol amdano.
4. Dangoswch eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o faterion iechyd yng nghyd-destun Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar lefel cymuned, awdurdod lleol a chenedlaethol.
5. Rhowch dystiolaeth o'ch sgiliau rhyngpersonol cadarn i ddangos dylanwad personol a hygredded i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol â sgiliau dylanwadu a thrafod cadarn.

CV

Byddwch cystal â sicrhau bod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Byddwch cystal â nodi unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	1 Gorffennaf 2018
Gorffen llunio rhestr fer:	w/d 9 Gorffennaf 2018
Cynnal cyfweiliadau:	w/d 23 Gorffennaf 2018
Dyddiad dechrau:	Cyn gynted â phosibl

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad: Cynhelir cyfarfodydd y bwrdd yn fisol, a hynny fel arfer mewn amrywiol leoliadau ar draws y Bwrdd Iechyd. Mae gan y Bwrdd Iechyd amryw o bwyllgorau hefyd, a chynhelir y cyfarfodydd naill ai bob mis, bob deufis neu bob chwarter.

Cydnabyddiaeth ariannol: £56,316 y flwyddyn

Ymrwymiad amser: Mae swydd yr Is-gadeirydd yn seiliedig ar ymrwymiad tybiedig o 13 diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cynllun Gwarantu Cyfweliad

Mae gan Lywodraeth Cymru Gynllun Gwarantu Cyfweliad i bobl anabl. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio person anabl fel person sydd â nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. O dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad, bydd ymgeisydd anabl yn cael ei ddewis ar gyfer cyfweliad os yw'n bodloni'r meini prawf hanfodol gofynnol ar gyfer y swydd.

Manylion Cyswllt:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol neu os hoffech gymorth wrth ymgeisio am y rôl hon, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus ar PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Is-gadeirydd, cysylltwch â Dr Peter Higson, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Ffôn: 01248 384290. E-bost: Peter.Higson@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, efallai yr hoffech fynd i wefan y Bwrdd Iechyd: <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/hafan>.

Rôl yr Is-gadeirydd

Disgrifiad o'r rôl

Mae hwn yn gyfle gwych i ddefnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i wneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl a'r cymunedau a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd yr Is-gadeirydd yn aelod o'r Bwrdd ac yn dirprwyo ar ran y Cadeirydd, os bydd yn absennol am unrhyw reswm.

Bydd yr Is-gadeirydd:

- Yn chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff y Bwrdd Iechyd ei lywodraethu, yn glinigol ac yn gorfforaethol, a bydd disgwyl i'r sawl a benodir gynnig barn annibynnol i'r Bwrdd am faterion fel perfformiad, penodiadau allweddol, rhagolygon ac atebolrwydd ;
- Yn cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar ei annibyniaeth, ei brofiad yn y gorffennol a'i wybodaeth, a'i allu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli gweithredol o ddydd i ddydd;
- Yn cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw;
- Yn dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r Bwrdd Iechyd i weithredu'n effeithiol;
- Yn gweithio'n agos gyda chyrff preifat, gwirfoddol a chyhoeddus eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau.

Yn ogystal â'i rôl gorfforaethol ar draws holl gyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd, bydd gan yr Is-gadeirydd gyfrifoldeb penodol i oruchwylio gwasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu'r Bwrdd Iechyd gan sicrhau model gofal cytbwys sy'n diwallu anghenion poblogaeth y Bwrdd Iechyd. Bydd yr Is-gadeirydd:

- **Yn cynnig arweiniad cryf, effeithiol a gweladwy** ar draws gwasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu; yn fewnol drwy'r Bwrdd a'i bwyllgorau, ac yn allanol drwy ei gysylltiadau ag ystod eang o randdeiliaid a phartneriaid ar lefel ehangach y gymuned ac yn genedlaethol
- **Yn cadeirio** Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl y Bwrdd sy'n goruchwylio cydymffurfiaeth â deddfwriaeth iechyd meddwl a chodau ymarfer cysylltiedig;
- **Yn gyfrifol am** graffu ar y trefniadau llywodraethu ar gyfer gwasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol, iechyd meddwl ac anabledau dysgu. Gweithio o fewn fframwaith llywodraethiant y Bwrdd Iechyd, i roi sicrwydd i'r Bwrdd bod y gwaith ar draws y system gyfan, yn seiliedig ar lwybrau gofal integredig, yn cael ei gyflawni;
- **Yn gweithio'n effeithiol** gyda phartneriaid yn y gymuned, yn arbennig yn ei faes cyfrifoldeb ac yn fwy eang a chefnogi'r Cadeirydd i sicrhau bod diwylliant ac arferion gwaith y sefydliad yn seiliedig ar ysbryd o bartneriaethau agored, ystyrlon a chynaliadwy. Bydd gan yr Is-gadeirydd sgiliau cyfathrebu rhagorol a, thrwy graffu effeithiol, bydd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod strwythurau'r sefydliad yn rhoi pwys cyfartal ar wasanaethau iechyd sylfaenol, iechyd cymunedol ac iechyd meddwl ac ar wasanaethau eraill y Bwrdd Iechyd, gan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

roi cyfle i wasanaethau contractwyr chwarae rhan lawn yn y gwaith o gynllunio gwasanaethau;

- **Yn cefnogi prosesau rheoli perfformiad y Bwrdd Iechyd**, i sicrhau system rheoli a gwella perfformiad integredig;
- **Yn helpu i feithrin a chynnal perthynas uniongyrchol** â gweithwyr proffesiynol sy'n gcontractwyr gofal sylfaenol, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan lawn yng ngwaith y Bwrdd Iechyd;
- **Yn cyflawni rôl llysgennad allanol**, gan gynrychioli'r Bwrdd yn gyhoeddus a meithrin hyder y cyhoedd.

Manyleb y person

Bydd Is-gadeiryddion yn dangos y rhinweddau canlynol:

Gwybodaeth a Phrofiad

- Profiad o arwain a datblygu sefydliad preifat, cyhoeddus neu drydydd sector llwyddiannus, a'r gallu i edrych i'r dyfodol a chynnig arweiniad strategol;
- Y gallu i gyfrannu'n effeithiol ar lefel Bwrdd;
- Profiad o ddeall y berthynas rhwng dyrannu adnoddau a rheoli a chyflenwi blaenoriaethau gwasanaeth o fewn fframwaith o lywodraethu corfforaethol cadarn;
- Y gallu i ddadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn;
- Y gallu i weithio gyda'r swyddogion gweithredol er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn arwain y sefydliad yn effeithiol. Lle y bo angen, byddwch yn dangos sgiliau a fydd yn eich galluogi i ddwyn y swyddogion gweithredol i gyfrif am berfformiad gan gynnal perthynas adeiladol yr un pryd;
- Y gallu i gyfrannu at brosesau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau;
- Profiad o weithio mewn cymunedau a thimau amlddisgyblaethol a chyda rhanddeiliaid allweddol ym maes llywodraeth leol.

Priodoleddau Personol a Sgiliau

Bydd angen i chi allu dangos y canlynol:-

- Y gallu i arwain ac ysbrydoli staff, edrych i'r dyfodol a nodi'r materion allweddol ar gyfer y sefydliad;
- Sgiliau rhyngpersonol cadarn a digon o ddylanwad personol a hygredded i fod yn eiriolwr a llysgennad effeithiol â sgiliau dylanwadu a negodi cadarn;
- Ymrwymiad a phenderfyniad, ynghyd â'r gallu i feithrin gweledigaeth a datblygu strategaethau wedi'u diffinio, er mwyn cyflawni nodau hirdymor a thymor byr;
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ynghyd â'r gallu i fod yn glir a chryno, a'r gallu i feithrin cysylltiad â phobl ar bob lefel;
- Y gallu i hwyluso dealltwriaeth o faterion cymhleth, gan ddangos parch at farn pobl eraill;
- Barn gadarn, sensitifrwydd ac ymwybyddiaeth wleidyddol;
- Y gallu i fod yn annibynnol ac yn gadarn;
- Y gallu i gyflawni rôl yr Is-gadeirydd yng nghyd-destun cyfrifoldebau statudol a chorfforaethol ehangach y Bwrdd a rolau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.

Rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos:-

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- Dealltwriaeth eglur o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, ynghyd ag ymrwymiad iddynt
- Dealltwriaeth glir o 'Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan', ynghyd ag ymrwymiad iddynt.

Y Gymraeg

Mae sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y penodiad hwn.

Ymrwymiad amser

Mae swydd Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o 13 diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad ac mae'n aml yn fwy na'r isafswm gofynnol.

Tâl cydnabyddiaeth

Bydd yr Is-gadeirydd yn cael £56,316 y flwyddyn a delir mewn ôl-daliadau yn fisol neu'n chwarterol, drwy gytundeb â'r Bwrdd Iechyd.

Treuliau

Bydd hawl gennych i gael ad-daliad, lle bo'n briodol, yn erbyn derbynebaw ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill, os cyflwynir derbynebaw, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Hyd y penodiad

Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n pennu hyd y penodiad, a bydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd yn y lle cyntaf. Er hynny, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Is-gadeirydd yn parhau'n gymwys drwy gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau'r Bwrdd sefyll am fwyafswm o wyth (8) mlynedd.

Atebolrwydd

Penodir Is-gadeiryddion gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Ysgrifennydd hwn am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth i Aelodau Anabl

Lle bo hynny'n briodol, bydd pob addasiad rhesymol yn cael ei wneud, er mwyn galluogi aelodau i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n cael gwneud cais

Ni fydd unigolyn yn gymwys i gael ei benodi os bydd:

- a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy;
- b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwy'r;
- c. wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth Iechyd;

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

- d. yn unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am iddo beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo beidio â datgelu buddiant ariannol;
- e. yn cael ei gyflogi gan y gwasanaeth iechyd;

Yn amodol ar yr eithriad a nodwyd yn (e), mae'n bolisi gan Lywodraeth Cymru y dylai pob un a gyflogwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Iechyd Lleol neu Ymddiriedolaeth GIG dreulio cyfnod heb ymwneud â'r GIG cyn cael ei ystyried ar gyfer un o benodiadau cyhoeddus y GIG.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro Buddiannau yn y ffurflen gais.

Dylai ymgeiswyr fod yn bobl sy'n ymddwyn bob amser mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd.

Yn benodol, rhaid i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod yn hysbys a hwythau wedi eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd fod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Gwrthdaro Buddiannau

Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn y Bwrdd.

Os cânt eu penodi, bydd angen i is-gadeiryddion ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl i Is-gadeiryddion gadw at y safonau llywodraethu da a osodwyd ar gyfer y GIG yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â "Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan".

Swyddogaeth a Chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Cefndir

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, ac mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau gofal sylfaenol, gofal cymunedol, gofal iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty aciwt ar gyfer poblogaeth o ryw 678,000 o bobl ledled chwe sir y Gogledd (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Mae gan y Bwrdd Iechyd gyllideb o £1.3 biliwn a gweithlu o oddeutu 16,500.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am dri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam), yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymunedol. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydgysylltu gwaith 109 o bractisau meddygon teulu a gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yn y Gogledd.

Ei Bwrpas

- Gwella iechyd a darparu gofal o safon ragorol.

Ei Weledigaeth

- Gwella iechyd y boblogaeth, gan ganolbwyntio'n benodol ar y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- Datblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal rhagorol drwy weithio mewn partneriaeth â'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector.
- Datblygu ei weithlu mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn meddu ar y sgiliau priodol ac yn gweithredu mewn diwylliant a gyfoethogir gan ymchwil a dysgu

Ei Nodau Strategol

- Gwella iechyd a llesiant i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a darparu mwy o ofal yn nes at gartrefi pobl.
- Gwella diogelwch a chanlyniadau gofal i gyrraedd yr un safonau â'r gorau sydd gan y GIG i'w gynnig.
- Parchu unigolion a chynnal eu hurddas wrth ddarparu gofal iddynt.
- Gwrando ar brofiadau unigolion a dysgu ohonynt.
- Cefnogi, hyfforddi a datblygu ei staff er mwyn iddynt allu rhagori yn eu gwaith.
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, a thrawsnewid gwasanaethau drwy arloesi ac ymchwil.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rôl y Bwrdd

Y tair rôl allweddol sy'n rhan o waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i gynnig arweinyddiaeth i'r sefydliad yw:-

- Llunio strategaeth
- Sicrhau atebolrwydd trwy ddwyn y sefydliad i gyfrif am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod systemau rheoli yn gadarn ac yn ddibynadwy
- Llywio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad.

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth** – cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu eich ffurflen gais o ran eich CV a'r cwestiynau a atebwyd gennych fel rhan o'ch datganiad personol i benderfynu a ydych yn bodloni meini prawf y rôl, ac a fyddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarparwch yn eich CV a'r cwestiynau a atebwyd gennych fel rhan o'ch datganiad personol i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Byddwch cystal â sicrhau eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol yn cynnwys Dr Peter Higson OBE, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Mark Polin, Darpar Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr; Sioned Rees, Llywodraeth Cymru; a David Jenkins OBE, cyn Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, gallai eich cais gael ei roi ar restr hir, cyn iddo gael ei anfon ymlaen at y panel a fydd yn tynnu'r rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol ei bod yn bosibl na chaiff eich cais ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 9 Gorffennaf pwy fydd yn cael eu gwahodd i'r cyfweiliadau, a fydd yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 23 Gorffennaf 2018.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf a fydd, ym marn y panel, wedi dangos orau eu bod yn bodloni'r meini prawf ym manyleb y person fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweiliad.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweiliad ac na fydd dyddiad y cyfweiliad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi am ddyddiad y cyfweiliad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweiliad a drefnir, byddwn yn gwneud ein gorau i ail-drefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd y cyfyngiadau amser yn yr amserlen ar gyfer penodi, a bydd yn dibynnu hefyd ar argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan y system Penodi i roi gwybod i chi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y rôl.

Efallai y bydd y broses benodi a'r cyfweiliad yn cynnwys asesiadau pellach o addasrwydd ar gyfer y rôl. Bydd y rhai sy'n cael eu gwahodd am gyfweiliad yn cael rhagor o wybodaeth ymlaen llaw.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bydd ymgeiswyr y mae'r panel yn ystyried eu bod yn 'benodadwy' yn cael eu hargymhell i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Ysgrifennydd y Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddewis cyfarfod ag un neu ragor o'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Bydd cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig yn bresennol ym mhob cyfarfod a gynhelir. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweild yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Is-gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad i chi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi'r amser a'r ymdrech sy'n mynd i wneud cais am rolau a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau a Chwynion

Os oes gennych ymholiadau am eich cais, neu os ydych am wneud cwyn, cysylltwch â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus yn PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Rheoleiddio gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus

Y Comisiynydd sy'n rheoleiddio ac yn monitro penodiadau i gyrff cyhoeddus i sicrhau bod gweithdrefnau'n deg, yn agored, yn dryloyw ac yn seiliedig ar deilyngdod. Gellir cael rhagor o wybodaeth am rôl y Comisiynydd a'r Cod Llywodraethu yma <http://publicappointmentscommissioner.independent.gov.uk>.